

Cyngor Cymuned Llanelian (280)

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Hydref 11, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Glenys Jones, Elfyn Hughes, Hefina Williams, John Griffiths, Thomas Jones, Dafydd Griffiths, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, David Gerrard, Cyng Aled M Jones,

Ymddiheuriadau: Cyng Richard Jones

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Neb

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir onibai nad oedd enw David Gerard wedi ei gynnwys yn y rhestr presenoldeb. Cynnig David Gerrard, eilio Hefina Williams.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Ymateb Dewi Williams – Materion Prif Ffyrdd

Sgipiau Ailgyrchu – fe gadarnhaodd bod y sgipiau cymunedol i'w gwagio cyn gynted a phosib. Bydd y Cyngor Sir yn edrych ar opsiynnau eraill unwaith byddent wedi gorffen cyflwyniadau ar newid y system casglu gwstrafr.

Lon yr Ysgol – cafwyd gadarnhad bydd arolwg cyflymder yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos i gadarnhau problem gor-yrru. Bydd swyddogion y heddlu hefyd ynghlwm gyda'u gwn radar, a bydd trafodaeth gyda'r heddlu i ddilyn. Bydd y wardeniaid parcio yn ymweld yn y bore a'r pawns i weld os yw'r marciau ffordd yn cael eu parchu. Bydd gan y wardeniaid yr hawl i roi tocynnau os fydd cerbydau yn aros yno yn ddigon hir. Bydd Mon Williams yn cael golwg ar y llinellau i sicrhau eu bod yn ddigon amlwg. Awgrymwyd bod y Cyngor yn cysylltu a'r ysgol i ofyn i rieni peisio a pharcio ar y llinellau melyn.

Cyfyngiad 20mya – cafwyd wybod na fyddai posib darparu parth 20mya yn ystod amser ysgol oherwydd y byddai angen arwyddion 'interactive'. Awgrymai Mr Williams disgwyl i wedl canlyniadau'r arolwg cyflymder a gweithredu ar y canlyniadau hynnu.

Nodwyd nad oedd Mr Williams wedi ymateb i'r holl bwyntiau a drafodwyd yn y cyfarfod. Cafwyd wybod gan John Griffiths mai wedi marcio'r lon er mwyn i'r contractwyr cael cynnig pris am y gwaith oedd yn ardal Llanelian a Phengorffwysfa. Roedd ar ddeall na fyddai'r gwaith yn cael ei gwblhau nes 2017/18. Roedd Cyng Aled Morris Jones fodd bynnag wedi cael cadarnhad byddai'r gwaith wedi ei gwblhau cyn mis Ebrill.

4.2 Toiledau Llanelian

Nid oes diweddariad pellach gan Mr Dewi Williams yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Bydd efallai mwy o wybodaeth ar gael erbyn cyfarfod y llithrfa a bydd cyfle i drafod opsiynnau posib pryd hynnu.

4.3 Cae Chwarae

Mae'r heddlu yn ymweld a'r cae chwarae yn reolaidd erbyn hyn ac yn adnabod yr unigolion sydd yn cyfarfod yno. Mae'r swyddogion lleol wedi cadarnhau y byddent yn parhau i ymweld ar gwahanol adegau o'r dydd a'r nos.

4.4 Enwau Tai

Fe gynnigodd Hefina Williams i wneud ymholiadau pellach ac ymweld a'r Stad.

4.5 Ceir wedi'w Gadael

Mae'r clerc wedi gwneud ymholiadau gyda'r DVLA a swyddogion lleol yr heddlu. Mae'n debyg bod swyddog pwrpasol gyda'r Cyngor Sir i ddelio a cheir sydd wedi eu gadael ar y briffordd. Mae'r wybodaeth perthnasol wedi ei basio ymlaen iddo ac mae wedi cadarnhau iddo fod wedi ei derbyn. Gobeithio gallu adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf.

4.6 Rheoliadau Ariannol

Daw ebost gan Un Llais Cymru yn cadarnhau nad oes rhaid i Gyngor Cymuned fabwysiadu'r ddogfen fodel newydd os oeddent yn fodlon a'u polisi cyfredol. Cytuno na fyddai mabwysiadu'r ddogfen ar hyn o bryd a byddai adolygiad o'r polisi cyfredol yn cymryd lle yn fuan.

4.7 Cronfa Ty Moel Isaf

Mae disgwyl ymateb gan Un Llais Cymru (NALC) am gyngor sut fyddai orau i reoli a diogelu arian y ddiweddar Mrs Mair Morris er budd y gymued.

4.8 Fideo'r Ombwdsmon

Fe ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd y fideo ganddo yn y cyfarfod – bydd cyfle i'w wyllo yn y cyfarfod nesaf.

5 Cynllunio

5.1 Ceisiadau

Roedd un cais i'w drafod:

- Bod Hyfryd, Ffordd Llanelian (24C335). Nodwyd mai datblygiad parhaol oedd hwn ac felly nodwyd pryderon a fyddai'r lon mynediad yn ddigonol. Nid oedd yr aelodau yn sicr o reolau cynllunio yn ymwneud a meysydd gweryllau ac felly gadewyd y cais i ddoethineb y swyddogion.

5.2 Penderfyiadau

Nodwyd penderfyniadau CSYM ar y ceisiadau canlynol:

- Tyn Chwarel – caniatad
- Kingston/Dublin – caniatad
- Tyddyn Bach – caniatad
- Dafarn Drip – caniatad
- Tan Terfyn – caniatad
- Adeilad amaethyddol ger y mast yn Nebo - gwrthod

6 Materion Ariannol

6.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£206.60 Costau Gweinyddol Gorffennaf – Medi

£257.72 Cyflog Medi

£75.00 Cyfraniad blynyddol Yr Arwydd

£650.00 Cyfraniad blynyddol Neuadd Bentref Penysarn

6.2 Adroddiad Chwarterol

Cyflwynwyd adroddiad ariannol chwarterol y Cyngor gan nodi'r prif wariant ac incwm y flwyddyn ariannol hyd yma. Cafwyd esboniad o unrhyw wariant ac incwm y tu allan i'r cyffredin megis gwaith trin a thrwsio'r cae chwarae wedi difrod ac arian a dderbyniwyd o gynllun rheoli'r llithrfa.

6.3 Ceisiadau am Arian

Daw cais am gymorth ariannol gan Llanelian Women's Institute. Mae'r grwp wedi cael gwybod am rodd hael y ddiweddar Mrs Mair Morris. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu yn ol at y grwp gan nodi nad yw'r Cyngor wedi derbyn yr arian hyd yma, bydd gwybodaeth ar gael unwaith bydd manylion wedi eu cytuno a cadarnhau.

7 Llithrfa

Mae'r postyn wedi mynd erbyn hyn, ac mae deilwyr goriadau wedi dechrau eu dychwelyd er mwyn hawilio eu had-daliad o £25. Nodwyd bod rheolaeth y cynllun eleni wedi gwella'n arw o'i gymharu a blynyddoedd cynt. Cytuno trefnu cyfarfod gyda'r Bartneriaeth ddechrau Tachwedd i gael trafod sut i wella'r cynllun eto erbyn y flwyddyn nesaf.

8 Wylfa Newydd

Mae ymgynghoriad PAC2 ar y gweill ar hyn o bryd (Dyddiad cau 25/10/2016). Annogwyd pawb i ymateb fel unigolion yn ogystal a grwpiau cymunedol gan mai dyma'r cyfle olaf i fynegi barn ar y prosiect yn ei gyfarwydd.

Mae'r dogfenanu diweddaraf yn son am nifer llawer iawn mwy o weithwyr ar y safle, am wersyll dros dro yn Amlwch, am beidio a datblygu safle Rhosgoch a pheidio gwneud gwelliannau i'r A5025 rhwng Amlwch a Chemaes!

Mae cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu yng Ngwesty'r Dinorben nos Iau 20/10/2016 am 7 o'r gloch i drafod pryderon yr ardal.

Trafodwyd nifer o bryderon fel y ganlyn:

- Dim gwelliannau i'r A5025 Amlwch i Gemaes – pam?
- Gwersyll dros dro yn Amlwch – oes mae angen i bobl wario yn y dref i gadw gwasanaethau ond dim gwersyll yn y lleoliad arfaethiedig yw'r ateb
- Diffyg is-adeiledd ac adnoddau yn yr ardal leol
- Diffyg a prinder gofal iechyd ar hyn o bryd heb son am ddyblu'r boblogaeth lleol
- Pryderon am lefelau traffig ledled yr ynys – gan gynnwys y pontydd
- Pobl 90 munud i ffwrdd yn bobl lleol?
- Cyflogau a gynnigwyd – bydd busnesau lleol yn colli gweithwyr i'r prosiect
- Pryderon am yr effaith ar dwristiaeth yn yr ardal
- Argaeledd tai i bobl lleol – a fydd effaith ar y gost o rhentu ty preifat?

Mae Dafydd Griffiths eisioes wedi ysgrifennu i fynegi ei bryderon ynglyn a'r nifer o weithwyr fydd ei angen ar y safle.

Pwysleiswyd ei fod yn hynod bwysig bod yr ardal lleol yn cael budd yn ogystal ag aflonyddwch

Mae Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon eisioes wedi cwrdd a swyddogion Horizon i drafod yr ymgynghoriad a'u pryderon am yr hyn a gyflwynwyd. Cytuno bod yn Bartneriaeth yn fforwm bwysig i drafod gyda'r cwmni, a bod y cynghorau yn gryfach wrth gydweithio.

Cytuno gwahodd Richard Foxhall (swyddog rhandeiliaid Horizon) i'r cyfarfod nesaf am ddiweddariad ar y prosiect.

9 **Gohebiaeth**

9.1 Grid Cenedlaethol – cafwyd ddiweddariad ganddynt o'r prosiect hyd yma, a hefyd hysbysiad bod eu hymgyngoriad diweddaraf yn cael ei gynnal ar hyn o bryd 5/10/2016 hyd 16/12/2016. Mae pawb wedi bod yn erbyn ail set o beilonnau, ac o blaid rhoi'r ceblau tan ddaear ers y cychwyn un.

10 **Unrhyw Fater Arall**

10.1 Swyddfa Bost – nodwyd cryn bryder am ddyfodol y gwasanaeth gan ei fod wedi cau nifer o ddyddiau yn ddiweddar. Cytuno cysylltu a'r Swyddfa Bost i ddatgan pryder. Byddai Cyng Aled Jones hefyd yn cysylltu.

10.2 Bin Cae Chwarae – nodwyd pryder bod y bin yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob math o bethau rwan bod y casgliadau wedi eu newid. Cyng Aled Jones i edrych os oedd yn bosib cael bin stryd ar y safle fyddai i'w wagio'n wythnosol.

10.3 Arwydd ar y sgwar – nid yw wedi ei baentio fyth – gofynnwyd y clerc i gysylltu a Mon Williams eto am ddiweddariad.

10.4 Rhoswen – mae gwaith torri coed yn parhau. Cytuno cysylltu a'r adran gynllunio i godi ymwybyddiaeth. Byddai Cyng Aled Jones hefyd yn cysylltu.

10.5 Trosedd Lleol – nodwyd bod yr heddlu wedi bod yn brysur gyda nifer o fyrglariaethau yn yr ardal lleol yn ddiweddar, ac fe ofynnwyd i bawb fod ar eu gwylidwraeth.

10.6 Golau'r Neuadd – nid yw'r problem gyda'r golau wedi ei sortio fyth. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Alan Phillips i drefnu bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted a phosib.

10.7 Cytundeb y Clerc – mae cytundeb ddrafft wedi ei hanfon allan gan Un Llais Cymru. Mae'n debyg ei fod yn un o'r dogfennau fydd yr archwilydd allannol yn edrych amdano yn y dyfodol. Cytuno byddai Dafydd Griffiths, Hefina Williams ac Elfyn Hughes yn ei drafod ac yn adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf. Y Clerc i baratoi'r wybodaeth perthnasol.

11 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredin nesaf Hydref 11, 2016.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 o'r gloch

Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd